Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

Adroddiad ar TGCh yng Nghymru Wledig

Rhagarweiniad

1. Fe allai defnyddio technoleg wneud cryn wahaniaeth i nifer o'r gwasanaethau a'r swyddi sydd ar gael i'n cymunedau gwledig. Yn benodol, gallai datblygu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) helpu i oresgyn anfanteision traddodiadol bod ar yr ymylon a phellter a wynebir gan gymunedau gwledig a busnesau. Ond ni ddaw mantesion ar unwaith oherwydd bod darpariaeth isadeiledd o ansawdd uchel yn cael ei denu i ardaloedd trefol fel arfer, lle mae'r galw amdani yn fwy o lawer. Heb strategaeth gydlynol wedi'i theilwra, mae perygl y bydd datblygiadau TGCh yn agor y bwlch economaidd rhwng yr ardaloedd gwledig a threfol. Bydd yn rhatach ac yn haws i unigolion, cymunedau a busnesau mewn ardaloedd trefol ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf, tra bo pobl mewn ardaloedd gwledig ar ei hôl hi. Mae technoleg yn gwneud camau breision ac mae'r bwlch felly'n prysur agor. Felly, penderfynodd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig gynnal ymchwiliad i ddarpariaeth TGCh yng nghefn gwlad Cymru, ansawdd y gwasanaethau TGCh sydd eu hangen a'r hyn y bydd yn rhaid ei wneud i symbylu'r galw amdanynt a'u darparu.

Camau'r adolygiad

2. Ym mis Gorffennaf 2001, estynnwyd gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig yn seiliedig ar y cylch gorchwyl canlynol.

3. Cyfeirio at astudiaethau achos a phrofiad unigolion yng Nghymru ac mewn mannau eraill, i weld pa gamau ychwanegol sydd angen eu cymryd i sicrhau bod economi a chymunedau gwledig Cymru yn manteisio'n llawn ar ddatblygiadau'r Oes Wybodaeth.

4. Bydd yr astudiaeth yn rhoi sylw arbennig i natur y gwasanaethau TGCh sydd eu hangen yng nghefn gwlad Cymru a'r hyn y bydd gofyn ei wneud i symbylu'r galw amdanynt a'u darparu drwy:

- weld pa weithgareddau TGCh, ar y gweill ac yn yr arfaeth, sy'n effeithio ar ddatblygiad economaidd, addysgol a chymunedol cefn gwlad Cymru;

- asesu'r galw am wasanaethau a chynnyrch TGCh yng nghefn gwlad Cymru, a sut orau i symbylu eu darparu a goblygiadau hynny ar adnoddau.

Bydd yr adolygiad yn esgor ar adroddiad a fydd yn rhestru:

- y TGCh sydd ei hangen yng nghefn gwlad Cymru a photensial hynny o ran datblygu economaidd;

- y camau y mae'n rhaid wrthynt i symbylu darparu gwasanaethau TGCh y mae galw amdanynt yng nghefn gwlad Cymru.

5. Derbyniwyd tri ar ddeg o gyflwyniadau ysgrifenedig, a geir yn atodiad 1. Yn ogystal, cafwyd tystiolaeth lafar oddi wrth:

OpportunitE Wales

Llwybr Pathway

Partneriaeth y Canolbarth

Awdurdod Datblygu Cymru

ELWa

Bwrdd Croeso Cymru

Cyngor Sir Powys

Yr Athro Mike Tedd

6. Gofynnwyd i Uned Gwerthuso Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol gynnal adolygiad o lenyddiaeth ynghylch 'yr hyn sy'n gweithio' yn y cynlluniau TGCh mewn ardaloedd gwledig.

7. Ceir yn yr adroddiad a'r argymhellion gasgliadau'r Pwyllgor yn sgil yr adolygiad hwnnw. Gyda'i gilydd, ac ochr yn ochr â'r mesurau sydd eisoes ar waith, credwn y byddant yn helpu i fynd i'r afael â nifer o'r materion yn ymwneud â TGCh sy'n wynebu cefn gwlad Cymru.

Mynd ati'n strategol i ddatblygu TGCh yng nghefn gwlad

8. Mae’r problemau y mae ardaloedd gwledig Cymru'n eu hwynebu o ran darparu TGCh yn deillio o’r boblogaeth isel a’r galw gwasgaredig. Heb dystiolaeth bod digon o alw i wneud elw masnachol, ni fydd darparwyr yn buddsoddi arian i ddarparu isadeiledd a gwasanaethau. Heb isadeiledd modern o ansawdd uchel, ni all cymunedau gwledig na busnesau elwa’n llawn ar fanteision TGCh nac osgoi bod ar ei hôl hi o ran datblygiadau TGCh mewn ardaloedd trefol.

9. Yn ein barn ni, rhaid i’r Cynulliad a gweddill y sector cyhoeddus geisio mynd i’r afael â galw a

chyflenwi, gan annog a chynorthwyo cyflenwyr o'r sector preifat i fuddsoddi yng nghefn gwlad Cymru, dangos gwerth TGCh i gymunedau a busnesau gwledig i hybu galw, dysgu'r sgiliau sydd eu hangen i bobl a chamu i mewn i fynd i'r afael â methiant yn y farchnad lle bo angen.

10. Nid oes amheuaeth bod modd i ardaloedd gwledig elwa ar TGCh ac mae rhai llwyddiannau, megis partneriaeth Llwybr Pathway a phrosiect MARAN yn tystio i hyn. Ond mae angen mwy o bolisïau rhagweithiol gan fod yr ardaloedd gwledig yn wynebu cymaint o anawsterau. Yn benodol, mae angen mynd ati mewn ffordd integredig sy'n seiliedig ar bartneriaeth i grynhoi'r galw, rhannu adnoddau ac arbenigedd ac osgoi dyblygu. Ar y cyfan, bydd gofyn i'r prosiectau fod yn rhai mawr, yn brosiectau strategol yn hytrach nag yn brosiectau peilot bach, lluosog na chânt eu cydlynu. Er hyn, ni ddylid drysu rhwng dull strategol a chanoli a biwrocratiaeth. Felly, dylai polisïau fod yn ddigon hyblyg i annog a chefnogi enghreifftiau o arferion da, yn ogystal â rhoi arweiniad a darparu fframwaith cyson er mwyn mynd â'r maen i'r wal mewn ardaloedd gwledig.

11. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi arweiniad strategol yn rhaglen Cymru Ar-lein sy'n amlinellu'r ffordd y bydd yn mynd ati i ddatblygu TGCh ledled Cymru. Mae'n hanfodol bod y rhaglen hon, ynghyd â'r rhaglenni sy'n deillio ohoni, yn mynd i'r afael yn benodol ag anghenion cefn gwlad Cymru, a hynny er mwyn goresgyn y bwlch digidol rhwng yr ardaloedd gwledig a'r ardaloedd trefol.

Argymhelliad:

a) Dylai'r dull strategol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn ei ddefnyddio i ddatblygu TGCh fynd i'r afael yn benodol ag anghenion ardaloedd gwledig Cymru, gan bwysleisio pwysigrwydd dull o weithredu hir dymor a chydlynol, gan annog a chefnogi cyfranogi a mentrau lleol.

12. Prosiect Llwybr Pathway oedd yr ymgais bwysicaf i ddatblygu TGCh yng nghefn gwlad Cymru ar lefel strategol. Cafwyd canlyniadau da ond mae'r fenter bellach wedi dod i ben a'r tîm canolog a fu'n ei gydlynu wedi gwahanu. Er ein bod yn hyderus bod digon i symbylu'r prif brosiectau a lywiwyd gan Llwybr Pathway i ddal ati, rydym yn pryderu y byddwn yn colli cyfleoedd yn y dyfodol heb dîm penodol i nodi, cydlynu a llywio mentrau eraill a fyddai o fudd i'r ardaloedd gwledig. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ran i'w chwarae ond ni all weithredu ar ei phen ei hun gan fod datblygu gwledig yn uniongyrchol berthnasol i gymaint o bartneriaid. Yr hyn sy'n bwysig yw cydnabod gwerth tîm canolog o'r fath a sicrhau bod partneriaid yn cyfrannu adnoddau. Y gobaith yw na fyddwn yn colli cyfleoedd yn y dyfodol oherwydd diffyg cefnogaeth gweddol fach oddi wrth garfanau perthnasol.

Argymhelliad:

b) Mae datblygu partneriaeth waith lwyddiannus yng nghefn gwlad Cymru yn dibynnu ar dîm canolog a fydd yn nodi, yn cydlynu ac yn llywio'r gweithredu, yn ffocws ar gyfer trafodaethau i gronni galw ac ati. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'i phartneriaid, gydnabod bod angen gweithio fel tîm wrth ymwneud â datblygu TGCh mewn ardaloedd gwledig a dylai gytuno ar ddull

o sicrhau bod tîm o'r fath yn cael arian o fwy nag un ffynhonnell er mwyn cyflawni hyn. Dylid lleoli'r tîm mewn ardal wledig.

Y galw am wasanaethau TGCh yn nghefn gwlad Cymru

13. Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth delathrebu yn dal i fod yn gyfyngedig mewn ardaloedd gwledig o'i chymharu â'r ddarpariaeth mewn ardaloedd mwy poblog, a lle bo darpariaeth ar gael, mae'n dueddol o fod yn ddrud. Yn naturiol, mae cwmnïau telathrebu masnachol, sy'n ceisio gwneud yr elw mwyaf ar sail eu buddsoddiad, yn cael eu denu i'r trefi mwy a'r dinasoedd lle mae arbedion maint yn sgil datblygiad y rhwydwaith yn sicrhau eu bod yn gwneud mwy o elw. Er mwyn denu'r buddsoddiad sydd ei angen oddi wrth y sector preifat i fynd i'r afael â chyflenwad gwasanaethau TGCh blaengar i gefn gwlad Cymru, mae'n hanfodol dangos bod digon o alw ar gael i sicrhau elw masnachol.

14. Cred y Pwyllgor y gellir cymryd sawl cam i ysgogi'r galw am TGCh a thrwy hynny annog darparwyr i wella'r cyflenwad. Mae perygl amlwg a gwirioneddol y gallai unigolion a chymunedau gael eu dieithrio neu fod yn ddiwaith, a pheri i fusnesau fod yn llai cystadleuol. Er hyn, nid oes llawer o bobl yng nghefn gwlad Cymru wedi manteisio ar TGCh hyd yma.

15. Efallai mai lefel yr ymwybyddiaeth ynghylch manteision posibl TGCh sydd yn y bôn yn egluro pam bod cyn lleied o fusnesau bach a chanolig wedi mabwysiadu TGCh, yn enwedig mewn sectorau megis amaethyddiaeth a choedwigaeth. Nid yw'n hawdd i gwmnïau bach, sydd wedi gweithio cyhyd heb gyfrifiaduron neu sydd ond wedi'u defnyddio ar gyfer tasgau sylfaenol, ddeall sut y gall prosesau busnes newid.

16. Yn aml iawn bydd yn rhaid wrth gyngor busnes annibynnol a chodi ymwybyddiaeth o'r manteision er mwyn i bobl fabwysiadu TGCh a'i defnyddio i'r eithaf. Gall TGCh helpu busnesau gwledig i fod yn fwy effeithlon, denu mwy o gwsmeriaid a dod o hyd i farchnadoedd newydd. Mae'r dechnoleg yn cynnig i gymunedau gwledig y posibilrwydd o oresgyn dirywiad mewn gwasanaethau gwledig ac yn helpu i gynnal cymunedau gwledig byw trwy ddarparu addysg, gwybodaeth a nwyddau cyhoeddus eraill mewn ffyrdd arloesol.

17. Yn ystod ein hymchwiliad clywsom am sawl busnes a chymuned wledig sydd wedi manteisio'n llwyddiannus ar TGCh. Mae defnyddio'r esiamplau hyn ac esiamplau eraill o arferion da yn ffordd ddibynadwy o roi gwybod am y manteision. Yn ogystal, hoffem weld gwasanaethau blaengar yn cael eu darparu i ysgolion a sefydliadau addysgol eraill, mwy o ganolfannau i'r cyhoedd a chyrsiau a chanolfannau cynghori i bawb. Gyda'i gilydd, gall camau o'r fath ennyn agwedd tuag at fanteision TGCh, ac ymwybyddiaeth ohonynt, y gellir eu trosi yn alw gwirioneddol.

18. Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth, mae gallu defnyddio'r caledwedd sydd ei angen i fanteisio'n llawn ar TGCh yn bwysig iawn i gefn gwlad Cymru. Nifer cymharol fychan o bobl yng nghefn gwlad sy'n berchen ar gyfarpar defnyddiwr er mwyn gallu defnyddio rhwydweithiau telathrebu ac, i raddau, gellir datrys hynny trwy gynnig darpariaeth ar y cyd mewn canolfannau mynediad lleol neu neuaddau

pentref electronig.

19. Mae defnyddio esiamplau a chanolfannau symudol neu ganolfannau hawdd mynd atynt i ddangos TGCh yn hynod bwysig mewn ardaloedd gwledig llai poblog. Mae sawl cynllun lleol ar waith ar hyn o bryd sy'n darparu mynediad, hyfforddiant a chyngor TGCh i fusnesau a chymunedau yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r rhain yn gwneud gwaith rhagorol ond yn aml yn dal ati heb fawr ddim cymorth ac yn dibynnu ar ymrwymiad personol unigolion. Byddent yn fwy defnyddiol pe câi'r holl rwydweithiau, unigolion a phwyntiau mynediad sy'n cynnig cymorth penodol eu nodi a'u defnyddio fel ffordd o ddarparu mwy o wasanaethau cyhoeddus yn electronig.

20. I ryw raddau, gellir goresgyn problem perchnogaeth offer trwy roi darpariaeth ar y cyd fel a nodwyd uchod. Mewn rhai achosion, aed ati mewn ffordd fwy uniongyrchol trwy roi cymorth cyhoeddus i alluogi unigolion i brynu neu ddefnyddio caledwedd TGCh. Efallai nad yw'n realistig i'r sector cyhoeddus roi cymhorthdal i brynu caledwedd a hyfforddiant ledled y wlad ond byddai manteision sylweddol o sicrhau bod mwy yn defnyddio TGCh. Bydd prosiectau hyd yn oed yn fwy cyfyngedig yn cael effaith bwysig fel cnewyll ar gyfer datblygu wrth i ymwybyddiaeth o TGCh, sgiliau ac agweddau diwylliannol ledaenu i ardaloedd cyfagos. Ni fydd hyn yn arwain at weithgarwch economaidd cynhyrchiol bob amser, ond byddai'n fanteisiol pe bai pobl yn gyfarwydd â TGCh i'w defnyddio yn eu hamser hamdden, yn breifat neu yn y gymuned.

21. Nid yw darparu caledwedd yn ddigon ynddo'i hun. Rhaid cefnogi'r caledwedd â gwasanaethau hyfforddi a chymorth. Mae'n hanfodol meithrin sgiliau TGCh mewn cymunedau gwledig er mwyn iddynt fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd sydd ar gael. Ar ben hynny, mae ardal yn fwy atyniadol os oes ganddi weithlu â sgiliau, gan fod hwn yn faen prawf sy'n dod yn fwyfwy pwysig i gyflogwyr wrth iddynt ddewis lleoliadau.

22. I gloi, yn ogystal â mynd i'r afael ag ymwybyddiaeth o TGCh a sicrhau bod offer, hyfforddiant a chymorth ar gael, mae twf yn y gwahanol gymwyseddau a gwasanaethau ar-lein yn bwysig o ran datblygu más critigol o ddefnyddwyr. Cyhyd ag y bo gwasanaethau a ddarperir trwy TGCh yn gyfyngedig, bydd y cymhelliant i fusnesau a dinasyddion fuddsoddi'r hyn sydd ei angen i'w defnyddio hefyd yn gyfyngedig. Dylai'r sector cyhoeddus arwain y ffordd o ran helpu i ddatblygu más critigol o wasanaethau ac annog y gwaith o ddatblygu cynnwys lleol. Gall paratoi a chynnal deunydd lleol o'r fath (sy'n adlewyrchu gweithgareddau, gwasanaethau, treftadaeth a diwylliant yr ardal) helpu i hyrwyddo'r ardal i gynulleidfa fwy a chreu swyddi lleol.

Felly rydym yn cynnig yr argymhellion a ganlyn:

c) Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus eraill hyrwyddo manteision TGCh i fusnesau a chymunedau trwy fesurau a lunnir yn benodol ar gyfer anghenion cefn gwlad Cymru, megis clybiau busnes, canolfannau hyfforddi symudol, teleganolfannau ac esiamplau unigol.

d) Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru nodi a blaenoriaethu rhestr o esiamplau a manteision

TGCh sy'n berthnasol i ardaloedd gwledig a'i rhannu trwy raglen benodol i hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth. Fel rhan o'r fenter hon, dylid nodi pwyntiau mynediad cyhoeddus a'r caledwedd ac arbenigedd sydd ar gael, a'u defnyddio yn sail i ehangu darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig.

e) Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru neilltuo cyllid cyhoeddus i gynorthwyo â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau TGCh mewn cymunedau gwledig. Dylai'r cymorth fod yn fach ac yn hyblyg er mwyn sefydlu a chadw pwyntiau mynediad cymunedol ynghyd â'r gwirfoddolwyr a'r esiamplau lleol y maent yn dibynnu arnynt.

f) Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o'r fenter e-gymunedau, geisio annog cymunedau gwledig i ddefnyddio TGCh trwy gynorthwyo â'r gwaith o ddarparu caledwedd, cymorth a hyfforddiant TGCh mewn ardaloedd gwledig.

g) Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio sicrhau bod busnesau gwledig yn defnyddio mwy ar TGCh trwy lunio rhaglenni creadigol a hyblyg i ddangos costau a manteision TGCh, megis cynlluniau 'profi cyn prynu' ac e-leoliadau.

h) Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus eraill arwain y ffordd o ran datblygu e-gynnwys ac annog mwy o bobl i'w ddefnyddio trwy gynnig gwasanaethau'r llywodraeth yn electronig.

Cyflenwi

23. Mae'n amlwg bod gan y sector cyhoeddus rôl i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r galw isel mewn ardaloedd gwledig. Efallai ei bod yn anos iddo ddylanwadu'n uniongyrchol ar ddarparu'r isadeiledd a'r gwasanaethau gan fod y rhain yn nwylo'r cwmnïau masnachol. Er hyn, cred y Pwyllgor bod camau y gellir eu cymryd mewn diwydiant sy'n dal i gael ei reoleiddio.

24. Yn benodol, gellir lleddfu tuedd cwmnïau telathrebu preifat i ganolbwyntio datblygiad mewn ardaloedd mwy poblog mewn sawl ffordd. Bydd yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus chwarae rhan bwysig yn hyn o beth:

- Pwysau gwleidyddol i sicrhau cydraddoldeb i ardaloedd gwledig;
- Annog cwmnïau masnachol, lle gellir dangos bod y farchnad yn methu, i sefydlu neu wella gwasanaethau lled band uwch mewn ardaloedd gwledig trwy gymorthdaliadau neu ddulliau ariannol eraill;
- Defnyddio cymorthdaliadau neu gymelldaliadau eraill i agor cystadleuaeth o ran darparu telathrebu mewn ardaloedd lle mae amodau monopoli ar waith ar hyn o bryd;
- Sicrhau bod yr awdurdodau cyhoeddus eu hunain yn chwarae rôl fel darparwyr gwasanaethau telathrebu er mwyn annog cystadleuaeth neu, am resymau cymdeithasol, sicrhau darpariaeth lle tybir ar hyn o bryd na fyddai'n fasnachol hyfyw;

- Crynhoi galw rhanedig, unigol (ac felly, galw anhyfyw) yn alw hyfyw ar y cyd a threfnu trafodaethau â darparwyr ar ran nifer o wahanol ddefnyddwyr.

Argymhellion:

i) Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau a gymerwyd yn ddiweddar i ddarparu mannau lle mae band llydan ar gael mewn ardaloedd gwledig trwy ddatblygu'r rhwydwaith dysgu gydol oes. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i fynd ar drywydd mentrau i grynhoi galw o'r fath a chynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu'r rhwydwaith er mwyn cryfhau'r isadeiledd TGCh sydd ar gael yng nghefn gwlad Cymru.

j) Dylai'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd bwyso ar yr Adran Masnach a Diwydiant a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau bod cynrychiolwyr o Gymru ar bwyllgorau perthnasol OFCOM, sef corff rheoleiddio newydd y diwydiant. Rydym am weld swyddfa OFCOM yn cael ei hagor yng Nghymru a dylai'r Cynulliad fod yn rhan o'r broses o ddewis cynrychiolwyr Cymru.

k) Dylai'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd bwyso ar OFTEL, ac OFCOM pan gaiff ei sefydlu, i fynd i'r afael ag anghenion penodol ardaloedd gwledig, yn enwedig yr angen i sicrhau nad yw costau mynediad i TGCh yn ddrytach nag mewn ardaloedd mwy poblog.

l) Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus eraill gefnogi'r mecanweithiau priodol ar gyfer ymyrraeth gyhoeddus i gefnogi'r gwaith o ddatblygu isadeiledd TGCh yng nghefn gwlad Cymru lle gellir dangos yn glir bod y farchnad wedi methu.